

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cynghorydd C. Iannucci-Williams (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, J.M. Norman, E. Penn, J. Protheroe a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr C.P. Franks, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), C. Stallard ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol”.

COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2024 fel cofnod cywir.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

CYNLLUN AIL-WYNEBU TAIR BLYNEDD CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD DIWYGIEDIG 2024 – 2027 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet o 24 Hydref, 2024 fel y'i cynhwysir yn yr agenda gan y Rheolwr Cymdogaeth, Gweithrediadau Gwasanaethau Cymdogaeth (Cynnal a Chadw Priffyrdd). Diben yr adroddiad oedd roi gwybod am y newidiadau a ddefnyddiwyd i nodi lleoliadau blaenoriaeth ar gyfer gwaith ailwynebu fel rhan o geisio cytundeb i'r cynllun ar gyfer 2024 – 2027.

Rhoddodd y Rheolwr Cymdogaeth gyflwyniad byr i'r Pwyllgor, er mwyn tynnu sylw at y meysydd a'r pwyntiau allweddol a gwmpesir gan yr adroddiad a'r Cynllun. Roedd hyn yn cynnwys y fframwaith deddfwriaethol a statudol yn ogystal â'r

rhwymedigaethau y tu ôl i ofyniad y Cyngor i gynnal priffyrdd y Sir, hyd at yr angen i wneud diwygiadau i Matrics Sgorio'r Cyngor ar gyfer ailwynebu yn dilyn yr adolygiad (ynghlwm wrth Atodiad B o'r cyfeiriad/adroddiad) ac yn dilyn adborth blaenorol bod angen ymgorffori Teithio Llesol ynddo. Trafodwyd hefyd Deithio Llesol a'r datblygiadau cadarnhaol o amgylch hyn o fewn y Fro. Disgrifiwyd y gwahanol fathau o waith cynnal a chadw priffyrdd hefyd, lle'r oedd y flaenoriaeth ar y lleiaf o darfu ar drigolion a defnyddwyr ffyrdd â phosibl a defnyddio gwahanol fathau o ddeunyddiau a phrosesau ailwynebu, yn enwedig gorchuddion wynebu cynaliadwy ac amgylcheddol gyfrifol mwy newydd a oedd yn effeithiol o ran cynnal priffyrdd a chost neu werth am arian.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor hefyd am wall teipograffyddol ym mharagraff 2.9 o'r adroddiad, ynghylch y gyllideb refeniw a ddarparwyd ar gyfer atgyweiriadau wyneb ledled Bro Morgannwg, a ddylai fod yn £850k, nid £200k, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Ar ôl y cyflwyniad, codwyd y chwestiynau a'r sylwadau canlynol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Protheroe at ddeunydd newydd wyneb priffordd a oedd yn cael ei dreialu gan Gyngor Bro Morgannwg (fel y'i hysbysebair gan y Cyngor ar gyfryngau cymdeithasol) a oedd yn gynaliadwy, o ffynonellau lleol, yn defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu ac yn helpu i gyflawni ei rwymedigaethau carbon sero net. Esboniwyd bod hyn wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen gan Gyngor Caerdydd a theimlwyd y gallai hyn fod yn ddeunydd wyneb hynod fuddiol, a oedd eisoes wedi'i dreialu o fewn y Sir, sef yn Sgomer Road, y Barri. Roedd y deunydd hwn yn defnyddio dur wedi'i ailgylchu ac agregau dur asffalt o ardal Caerdydd. Roedd gan hyn gyfnod cynnal a chadw neu gylch bywyd o bum mlynedd, ac roedd y Cyngor yn awyddus i fonitro ei lwyddiant a'i ddefnydd mewn lleoliadau eraill yn y Sir.

O ran y cwestiwn dilynol ar y deunydd hwn, os caiff ei dreialu'n llwyddiannus, y deunydd wyneb o ddewis ar gyfer priffyrdd yn ardal y Cyngor wrth symud ymlaen, eglurwyd nad oedd y contractwr a ddefnyddiwyd ar gyfer hyn ar y fframwaith contractwyr/priffyrdd perthnasol a'i fod yn hynod bwrpasol ac arbenigol, sy'n golygu na fyddai'r wyneb hwn o reidrwydd yn cael ei ddefnyddio drwy'r Fro gyfan, ond yn hytrach gael ei ehangu i ardaloedd mwy lleol. O ran ymholiad cysylltiedig y Cadeirydd ar ba mor hir y byddai'r treial ar gyfer defnyddio'r deunydd hwn, eglurwyd mai treial tymor byr oedd hwn, a oedd eisoes yn esgor ar ganlyniadau cadarnhaol, gan helpu i gyfrannu at amcanion sero net a phris cystadleuol.

Gofynnodd yr Is-gadeirydd am weithdrefnau ynghylch ail-wynebu llwybrau troed ac a ddylid hysbysu preswylwyr ymlaen llaw er mwyn iddynt allu symud eu cerbydau fel y gellir gwneud yr arwynebau perthnasol ar un tro yn hytrach nag ar sawl achlysur. Eglurwyd y dylai'r contractwyr perthnasol fod yn cysylltu â thrigolion lleol drwy ddsbarthu post, ac ati cyn gwneud gwaith ailwynebu a byddai hyn yn cael ei ystyried a'i godi gyda nhw. Pwysleisiwyd hefyd pe bai angen i gontractwyr ail-fynychu ardal i gwblhau ailwynebu ffyrdd, llwybrau, ac ati, nid oedd hyn yn arwain at gostau pellach i'r Cyngor nac i'r preswylwyr.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ernest at y rhan o'r adroddiad a oedd yn ymdrin â newidiadau ac argymhellion i ddiweddarau'r matrics er mwyn cynnwys teithio llesol

gydag ychwanegu llwybrau bysus a beicio. Roedd hyn yn cwmpasu ffyrdd nad oeddent bob amser mor dda neu mewn cyflwr cystal ag eraill a gofynnodd a ellid mynd i'r afael â hyn. Eglurwyd bod trafndiaeth gyhoeddus / trafndiaeth ysgol wedi'i nodi o fewn y Matrics sgorio arfaethedig ond roedd hefyd yn y Matrics sgorio blaenorol hefyd a'r pwysoliadau yn union yr un fath, gyda ffactor allweddol sy'n cyfrannu bellach yn teithio llesol hefyd.

Arweiniodd y Cynghorydd Wiliam a Chadeirydd y Pwyllgor wrth ddiolch i'r Tîm Cynnal a Chadw Priffyrdd yn eu gwaith ailwynebu mewn ardaloedd fel Park Crescent yn y Barri.

Gofynnodd y Cynghorydd Norman beth oedd bwriad y Cyngor o ran cyflwr gwael presennol rhai llwybrau cerdded a phalmentydd mewn ardaloedd fel Llanilltud Fawr (h.y. cerrig palmant ar goll neu wedi cracio, ac ati). Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai'n hoffi cael gwybodaeth am sut y gallai trigolion lleol roi gwybod i'r Awdurdod am lwybrau cerdded, palmentydd, ac ati, sydd wedi'u difrodi, gan ei bod yn gwerthfawrogi nad oedd archwiliadau rheolaidd o'r holl arwynebau o'r fath gan y Cyngor bob amser yn bosibl. Eglurwyd bod gan y Cyngor bedwar Arolygydd Priffyrdd a oedd yn cynnal yr archwiliadau arferol hyn o'r arwynebau hyn, gan gwmpasu 2,590 o gyfeiriadau stryd unigryw. Roedd amlder arolygiadau o'r fath wedi cynyddu'n gyffredinol yn y rhan fwyaf o ardaloedd. O ran y materion yn Llanilltud Fawr, ffactor mawr yn hyn oedd y parcio amhriodol cyson ar balmentydd, er gwaethaf ymdrechion arolygwyr i ganfod y rhain a rhoi gorchmynion gwaith i'w hatgyweirio. Gellid gweld y duedd hon hefyd mewn rhannau eraill o'r Fro. Cynghorwyd, pe bai preswylwyr yn nodi unrhyw ddifrod neu ddiffygion gyda phalmant ac wynebau eraill, y gallent gysylltu â'r Cyngor, megis logio diffyg ar borth cwsmeriaid ar-lein y Cyngor. Roedd yn bwysig bod gan y Cyngor gyda phartneriaid, fel Heddlu De Cymru, y pwerau sydd eu hangen i orfodi parcio priodol ar droedffyrdd lleol er mwyn helpu i ddiogelu'r rhain.

Croesawodd y Cynghorydd Hooper yr adroddiad a'r Cynllun, yn enwedig gan gyfeirio at yr argymhellion a gymerwyd gan y Pwyllgor, megis cynnwys llwybrau Teithio Llesol. O ran ei gwestiwn ynglŷn â chyflwyno'r terfyn cyflymder o 20mya ac a oedd unrhyw effaith amlwg wedi bod ar ffyrdd lleol, eglurwyd ei bod yn rhy fuan i ddweud a fu effaith ai peidio, yn enwedig gan mai dim ond cyflymder cerbydau modur oedd wedi eu heffeithio yn hytrach na'u pwysau neu'r llwybrau yr oeddent yn eu defnyddio.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at y pwysoliad a roddwyd i "ddiffygion mewn llinell awydd beicio" fel rhan o'r Matrics Sgorio Blaenoriaethu Ailwynebu Lonydd Cerbydau (Atodiad B i'r adroddiad). Teimlai nad oedd y pwysoliad ar gyfer hyn yn ddigonol ac nad oedd yn adlewyrchu'n ddigonol y difrod neu'r niwed posibl i'r beiciwr pe byddent yn taro twll neu ryw ddiffyg arall mewn briffordd, ac ati. Eglurwyd wedyn y gall beicwyr ddefnyddio ystod o arwynebau i feicio, yn dibynnu ar yr hyn yr oeddent yn gyfforddus ag ef, nid yn unig y briffordd neu'r lôn gerbydau, ond gellid ystyried newid y pwysoliad wrth i'r matrics esblygu. Hefyd, ar gyfer y llwybrau hynny a ddefnyddir gan feicwyr oedd dan Teithio Llesol, byddai'r rhain yn cael pwyntiau ychwanegol a phwysoli gan gynyddu eu blaenoriaeth o dan y matrics.

O ran ymholiadau'r Cynghorydd Ernest ynghylch y matrics ar Atodiad B, y sgorio a'r llwybrau dan sylw, awgrymwyd y byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn asesiad y

peiriannydd perthnasol a byddai ymholiadau penodol o'r fath yn cael sylw y tu allan i'r cyfarfod hwn ar wahân.

Yn olaf, siaradodd yr Aelod Cabinet dros Gymdogaeth a Gwasanaethau Adeiladu, gan ddiolch i'r Pwyllgor am eu sylwadau a'u hargymhellion ar yr adroddiad a'r Cynllun. Ychwanegodd ei fod yn falch o weld bod y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor o ran y pwnc hwn wedi cael eu hystyried (h.y. llwybrau Teithio Llesol yn y sgorio / matrices). Roedd y newidiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad yn amserol, oherwydd newidiadau yn Rheolau'r Ffordd Fawr ac i derfynau cyflymder ffyrdd

Yr oedd wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

- (1) Diwygio'r gwall teipograffyddol ym mharagraff 2.9 yr adroddiad, ynghylch y gyllideb refeniw a ddarparwyd ar gyfer clytio ar draws Bro Morgannwg, o £200k, fel y nodwyd yn yr adroddiad, i'r ffigur cywir o £850k.
- (2) Y byddai swyddogion Cyngor Bro Morgannwg yn adolygu, ymhen blwyddyn, y pwysoliad a roddir i "ddiffygion yn y llinell awydd beicio" fel rhan o'r Matrics Sgorio Blaenoriaethu Ail-wynebu Ffyrdd Cerbydau (Atodiad B i'r adroddiad).
- (3) Nodi'r Cynllun Ail-wynebu Tair Blynedd Cynnal a Chadw Priffyrdd 2024 – 2027.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Er mwyn i'r manylion ynghylch clytio o fewn y gyllideb refeniw a ddarparwyd fod yn gywir.
- (2) Sicrhau bod y pwysoliad priodol yn cael ei roi ar gyfer diffygion yn y llinell awydd beicio fel rhan o'r Matrics Sgorio Blaenoriaethu Blaenoriaethu Ailwynebu Ffyrdd Cerbydau ac asesiad y Peirianwyr. Roedd hyn er mwyn adlewyrchu'r effaith bosibl ar feiciwr(wyr) oherwydd diffygion o'r fath.
- (3) O ystyried cynnwys y cyfeiriad, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod, cyn iddo gael ei gytuno'n ffurfiol ac i alluogi'r Cynllun terfynol i gael ei gymeradwyo ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor, gan nad oedd unrhyw sylwadau yn effeithio ar y Cynllun, fel y cynnygiwyd, wedi ei dderbyn.

DIWEDDARIAD MONITRO ARFORDIROL (CAT) –

Bwriad yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Peirianeg – yr Amgylchedd, oedd diweddarau'r Pwyllgor ar fonitro'r arfordir o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Rhodddwyd cyflwyniad, ynghyd â'r adroddiad, i'r Pwyllgor yn amlinellu'r meysydd a'r diweddariadau allweddol, megis cyfansoddiad arfordir Bro Morgannwg, y cyd-destun strategol, effaith rhagamcanol newid hinsawdd, erydu arfordirol a pheryglon llifogydd

i'r Sir, yn ogystal â rôl Canolfan Monitro Arfordirol Cymru (CMAC), y gwahanol setiau data a gafodd eu casglu, eu monitro a'u dadansoddi rhan o hyn, hyd at arolygon diweddar a gynhaliwyd, monitro asedau arfordirol ac amcanion monitro'r dyfodol, gyda'r canlyniadau monitro'n cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o reoli'r arfordir yn y tymor hir trwy ddarparu sylfaen dystiolaeth gyson a chyffredinol hirdymor i lywio'r gwaith o gyflawni polisiâu a monitro Cynllun Rheoli Traethlin, yn ogystal â, lle bo hynny'n briodol, helpu i lywio unrhyw ofyniad am newidiadau i'r polisi Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT).

Hefyd o ddiddordeb oedd bod monitro strategol hirdymor arfordir Cymru ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordirol bellach wedi'i ariannu a'i gyflawni ar ran Awdurdodau Lleol Morwrol Cymru gan Ganolfan Monitro Arfordirol Cymru (CMAC), a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, codwyd nifer o sylwadau ac ymholiadau, gan gynnwys y canlynol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wiliam at yr arolygiadau parhaus o Fae Jackson a'r Cnap, a gofynnodd a oedd, oherwydd y cwmp creigiau rheolaidd ym Mae Jackson, bellach yn gymwys i gael arwyddion newydd i dynnu sylw at y perygl hwn i ymwelwyr. Eglurwyd bod cyfarfod wedi bod rhwng y Cyngor a grŵp gwirfoddol lleol yn ddiweddar i helpu i glirio'r traeth a gwella'r ardal ac fel rhan o hyn cynhaliwyd archwiliad arwyddion. Yn dilyn pryderon ac adborth trigolion lleol a godwyd gan yr archwiliad, y bwriad oedd gosod arwyddion newydd yn gynnar yn 2025. O ran ymholiad y Cynghorydd am unrhyw batrymau gweladwy o arolygu traethau ynghylch colli tywod mewn ardaloedd fel Whitmore a Bae Jackson oherwydd treillio rhwydi ac erydu, yr ymateb oedd na fu unrhyw arwydd hyd yma o unrhyw 'adlamu' sylweddol o ran lefelau tywod ers cwtogi'r treillio rhwydi. Fodd bynnag, ni fu dirywiad sylweddol pellach yn yr ardal hon. Byddai arolygu pellach yn cael ei gynnal dros y blynyddoedd nesaf i ehangu gwybodaeth am faint o ddeunydd a gynhaliwyd yn y meysydd hyn a thrwy hynny gyfrifo symudiad hyn.

O ran cwestiynau dilynol y Cynghorydd Wiliam ar natur arolygon bathymetrig, y profion ar gyfer carthion ac a ymgwymerwyd ag unrhyw arolwg neu brofion ar lefelau ymbelydredd posibl yn y samplu dŵr ar arfordir y Sir, eglurwyd bod yr arolwg blaenorol yn cynnwys mesur uchder neu ddyfnder gwely'r môr er mwyn cynhyrchu model Terrain. Roedd profion am garthion mewn samplau dŵr yn disgyn o dan gylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar lefelau ymbelydredd, nid oedd y Cyngor yn gwneud hyn o ran profi ansawdd dŵr.

O ran ymholiad y Cynghorydd Champion ar effaith y cynnydd a ragwelir yn lefel y môr yn y dyfodol ar dir lefel isel ym Mro Morgannwg (h.y. Gorsaf Bŵer Aberddawan), yr ymateb oedd nad oedd codi lefel y mor yn broses linellol ond yn hytrach yn gromlin oedd yn gyflymu ac yn seiliedig ar y data a'r amcanestyniadau cyfredol sydd ar gael, ni fyddai ardaloedd fel Aberddawan yn cael eu heffeithio'n sylweddol am gryn amser i'r dyfodol.

O ran ymholiad dilynol y Cadeirydd ynghylch monitro ardaloedd arfordirol sydd mewn perygl o erydu / llifogydd arfordirol ac a oedd unrhyw fesurau rhagataliol ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau posibl hyn, eglurwyd bod hyn yn dibynnu ar ba ran o'r

ardal arfordirol yr effeithiwyd arni a phwy oedd y perchennog asedau perthnasol. Gweithiodd y Cyngor gyda pherchnogion, partneriaid a rhanddeiliaid amrywiol ar hyd yr arfordir i helpu i fynd i'r afael â pheryglon llifogydd, cynnal a chadw a chyllido amddiffynfeydd llifogydd, ac ati, ar y cyd â'r awdurdodau rheoli risg perthnasol yn unol â'r polisi CRhT a'r data diweddaraf ar lefel y môr / llifogydd.

Holodd y Cynghorydd Protheroe sut y defnyddiwyd y fethodoleg hon sy'n seiliedig ar risg ac a oedd monitro arfordir Gorllewin y Fro, a oedd yn profi cwmpïadau clogwyni ac erydiad rheolaidd. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod rhywfaint o fonitro wedi'i wneud ar gyfer yr arfordir gorllewinol, ond nid oedd hyn yn rheolaidd, oherwydd y meini prawf sgorio presennol ar risg ar gyfer yr ardal hon, gan flaenoriaethu ardaloedd risg uwch ac ystyriaethau ar gyllid ac adnoddau. Roedd hyn yn golygu bod dibyniaeth ar dechnolegau cost-effeithiol (megis defnyddio technoleg drôn) ac ymgysylltu â grwpiau arfordirol lleol i helpu i ategu monitro yng Ngorllewin y Fro. Ychwanegodd y Cadeirydd sut y gallai trigolion lleol adrodd am gwmpïadau clogwyni yng Ngorllewin y Fro. Roedd yr opsiynau sydd ar gael i breswylwyr yn cynnwys cysylltu â chanolfan alwadau gwasanaeth cwsmeriaid y Cyngor (Cyswllt Un Fro) lle byddai eu hadroddiad yn cael ei asesu a'i drin yn unol â hynny, h.y., os yw'n briodol, gellid rhoi arwyddion mewn lle.

O ran cwestiwn y Cadeirydd ar sut y gallai'r Cyngor fynd i'r afael â mater parhaus ymwelwyr mewn gwahanol rannau o'r arfordir yn eistedd yn uniongyrchol o dan ymylon y clogwyni a'r risg gysylltiedig â hyn, eglurwyd bod arwyddion wedi'u rhoi ar waith lle bynnag y bo modd i fynd i'r afael â hyn gan y Cyngor, ond dim ond ardaloedd sy'n eiddo i'r Cyngor y mae hyn yn berthnasol iddynt ac nid ar dir preifat, ac ati lle nad oedd gan y Cyngor unrhyw rwymedigaethau na chaniatâd i roi arwyddion ar dir o'r fath. Awgrymodd y Cadeirydd mai Aelodau Ward Lleol fyddai'r sefyllfa orau i hysbysu'r Cyngor am risgiau o'r fath yn eu hardaloedd. Roedd hwn yn faes o bryder a godwyd hefyd gan yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles o ran traeth Llanilltud Fawr, er bod arwyddion digonol ar waith yno ac ymdrechion cyffredinol y Cyngor i fynd i'r afael â hyn yn y lleoliad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ernest at y cwmpïadau clogwyni sylweddol, ac ati, yn ardal ac arfordir Penarth a'r cyffiniau a pha sicrwydd y gallai'r Cyngor ei roi i drigolion sy'n byw yn yr ardaloedd hyn heb fawr ddim mesurau lliniaru a symud yn ôl o linellau ffens ar glogwyni lleol. Mewn ymateb, roedd gan y Cyngor gysylltiad uniongyrchol â'r trigolion hynny yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan gwmpïadau clogwyni ac erydiad. Byddai'r ardaloedd hynny nad oedd amddiffynfeydd wedi'u gosod yn cael erydu'n naturiol, gyda'r ffocws ar yr ardaloedd allweddol hynny oedd ag amddiffynfeydd eisoes mewn lle. Roedd gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos mapio a rhagfynegiadau rheoli risg erydu arfordirol ar gyfradd gyfartalog erydu ar yr arfordir. Ar hyn o bryd ni fyddai eiddo mewn ardaloedd o'r fath yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol ond o bosibl byddai gerddi ac ardaloedd anghysbell o dir ger eu heiddo yn y tymor canolig i'r tymor hir. Gallai preswylwyr unigol gysylltu â'r Cyngor os oes angen rhagor o wybodaeth a sicrwydd arnynt am yr effaith i'w heiddo ac ati oherwydd erydu arfordirol cyfagos. Yn anffodus, nid oedd cyllid ar gael i bob ardal arfordirol gael amddiffyniad ac amddiffynfeydd ychwanegol. Yn ogystal, mantais arall o fonitro'r arfordir oedd sicrhau bod rhagfynegiadau cyfredol ar erydu mor gywir â phosibl, ynghyd â hyn yn helpu i gysylltu ag asiantaethau partner, ac ati ynghylch safle'r llinell ffens.

Yr oedd wedi hyny

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r rhaglen bresennol o fonitro'r arfordir.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

ADRODDIAD DIWEDDARU 6 MIS AR WASANAETHAU BWS LLEOL YM MRO MORGANNWG (CAT) –

Yn dilyn adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 16 Ebrill, 2024, gofynnwyd i gyflwyno adroddiad diweddarau pellach ar wasanaethau bysus ym Mro Morgannwg i'r Pwyllgor ymhen chwe mis.

Mae'r adroddiad diweddaraf, a gyflwynwyd gan Reolwr Gweithredol Gwasanaethau Trafnidiaeth y Cyngor, wedi diweddarau'r Pwyllgor ar newidiadau a wnaed i'r rhwydwaith bysus ers mis Ebrill 2024.

Rhodddwyd cyflwyniad yn amlinellu meysydd allweddol yr adroddiad a'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, a oedd yn cynnwys pynciau fel contractau a chyllid cyfredol, contractau a ddyfarnwyd, hygyrchedd amserlenni bysus, gweithio mewn partneriaeth ranbarthol (Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd), cysylltiadau rhwng cartrefi, ysbytai, a chyfnewidfeydd bysus, y Cynllun Datblygu Lleol a llwybrau bysus yn y dyfodol, hyd at ailgyflwyno gwasanaeth G1 Greenlinks, yn ogystal â chyllid a gwasanaethau masnachol yn y dyfodol i sicrhau cynaliadwyedd llwybrau a gwasanaethau bysus ym Mro Morgannwg.

Yn dilyn y cyflwyniad, codwyd nifer o sylwadau ac ymholiadau yng nghyfarfod y pwyllgor, gan gynnwys y canlynol.

Cododd y Cynghorydd Hooper ymholiad am gyfnewidfeydd Dociau'r Barri a Cogan yn ogystal â'r anallu hyd yma i sicrhau darpariaeth ddigonol i gefnogi gwasanaethau bysus a thrafnidiaeth ysgolion lleol a sut y gallai'r Cyngor helpu, megis drwy gyswllt â Llywodraeth Cymru, gan ei fod yn teimlo mai 'gwasanaeth Sinderela' oedd hwn o ran cyllid, adnoddau a chymorth. Ar bwynt y Cynghorydd Hooper ar wasanaethau bysus ysgol, cyfeiriodd yn benodol at y llwybr rhwng Ynys y Barri ac Ysgol Uwchradd Whitmore. Y pryder oedd sicrhau gwell integreiddio rhwng gwasanaethau bysus ysgol a lleol a fyddai'n rhoi mwy o opsiynau i ddisgyblion ac yn eu cael i arfer â theithio ar dtrafnidiaeth gyhoeddus o oedran ifanc. O ran y cyfnewidfeydd, roedd dau wasanaeth bws yn rhedeg i'r Dociau. Ar gyfer Cogan, roedd hyn ar y rhestr 'uchelgeisiol' ac roedd y Cyngor yn gweithio gyda Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar offeryn blaenoriaethu llwybr neu gynllun trafndiaeth, a byddai cynnydd pellach yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor maes o law. Ar y gwasanaethau bysus ysgol, roedd hyn wedi cael ei redeg gan ddarparwr masnachol a'r her a wynebwyd oedd nad oedd hyn yn ddyletswydd statudol i'r Cyngor ac roedd cael diddordeb gan ddarparwyr amgen wedi bod yn anodd. Anogodd y Cynghorydd Hooper y Pwyllgor i helpu i lobio'r Cyngor ynghylch pwysigrwydd gwasanaethau

bysus ysgol ar gyfer diogelwch a lles plant, yn enwedig yn ystod cyfnod y Gaeaf. Eglurodd y Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Trafnidiaeth fod arolwg wedi'i gynnal gyda thrigolion y Fro ar wasanaethau bysus a'r hyn y maent ei eisiau gan y rhain er mwyn trafod y rhain gyda darparwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, byddai angen cyllid ychwanegol ar gyfer unrhyw newidiadau er mwyn eu gwireddu, ond nid oedd hyn ar gael ar hyn o bryd. Byddai angen i sylwadau neu argymhellion o'r fath gan y Pwyllgor ar y pwnc hwn fynd i'r Cabinet i'w hystyried, yn enwedig o ran cyllid ychwanegol.

Cododd y Cynghorydd Ernest yr angen am fwy o gysylltedd o ran gwasanaethau bws rhwng Penarth ac Ysbyty'r Barri. Mewn ymateb, nid oedd unrhyw gynlluniau penodol o amgylch hyn a llwybrau eraill ar hyn o bryd. Byddai gwneud penderfyniadau ar lwybrau o'r fath yn rhan o fasnachfaint gwasanaethau bysus pan fyddai gan Lywodraeth Cymru neu Trafnidiaeth Cymru reolaeth lawn arnynt. Byddai'r Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Trafnidiaeth yn edrych ar ba gysylltiadau a gwasanaethau bysus oedd ar gael ar gyfer y llwybr hwn a'u rhannu gyda'r Cynghorydd.

Gofynnodd yr Is-gadeirydd a oedd y Cyngor yn casglu ffigurau ynghylch nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau bws yn y Fro er mwyn cael gwell ymdeimlad o'u hyfywedd yn y dyfodol (gan gynnwys gwasanaethau am ddim a gyflwynwyd ar gyfer misoedd yr haf). Ychwanegodd y Cadeirydd at hyn drwy ofyn sut y penderfynwyd ar ffigurau o'r fath ac a oedd y Cyngor neu'r darparwyr gwasanaethau bysus yn monitro hyn. Eglurwyd, fel rhan o'r cytundeb gyda'r grant rhwydwaith bysus, bod yn rhaid i weithredwyr ddarparu data o'r fath i Lywodraeth Cymru. Nid oedd y Cyngor yn ymwybodol o'r holl ddata hyn oherwydd bod hyn yn gyfrinachol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, y syniad y tu ôl i'r gwaith o goladu data hwn oedd dod o hyd i bwynt lle gellid penderfynu a fyddai gwasanaeth yn fasnachol hyfyw ai peidio eto oherwydd bod y Cyngor yn helpu i ariannu'r gwasanaethau hyn a oedd gynt yn fasnachol. Gweithiodd y Cyngor gyda phartneriaid rhanbarthol yn ne-ddwyrain Cymru i edrych ar gost y pen ar gyfer gwasanaethau / defnydd bysus ac a oedd hyn yn codi neu'n mynd i lawr mewn ardaloedd gwledig a threfol. Roedd y gost fel arfer yn uwch mewn ardaloedd gwledig, ond roedd gwasanaethau bysus yma yn wasanaeth hanfodol ar gyfer y rhannau hyn o'r Fro. Oherwydd y defnydd o gyllid A106, roedd defnydd y gwasanaethau bws am ddim yn y Fro yn cael eu monitro'n uniongyrchol. Er bod y Cyngor wedi rhoi tua £500,000 i mewn i lwybrau bysus anfasnachol, synnodd y Cadeirydd nad oedd ganddo fynediad at yr holl wybodaeth a oedd ar gael er mwyn i'r Cyngor ddeall a oedd gan y llwybrau dan sylw y potensial i ddod yn fasnachol hyfyw eto fel y gellid canolbwyntio ymdrechion yn y meysydd hynny. Felly, gofynnodd y Pwyllgor i'r Cabinet ddefnyddio ei drafodaethau ar wahanol lefelau Llywodraeth Cymru er mwyn tynnu sylw at fwy o rannu data a'r sylwadau / materion eraill a godwyd.

Cefnogodd y Cynghorydd Protheroe sylwadau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, gan ychwanegu ei bod yn bwysig hyrwyddo'r defnydd o fysis ymhellach fel rhan o deithio cynaliadwy ac felly roedd yn hanfodol cael llinell sylfaen neu feincnod trwy fynediad at y data perthnasol er mwyn mesur nifer y defnyddwyr ar gyfer gwasanaethau bysus ac adeiladu ar hyn. Roedd y Cynghorydd wedi croesawu'r defnydd o'r gwasanaethau bws am ddim yn y Fro Wledig ac yn teimlo y dylid defnyddio cyllid drwy Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer strategaeth i helpu

ardaloedd gwledig yn y rhanbarth (gan gynnwys y Fro) lle mai bysus oedd yr unig fodd o gludiant cyhoeddus gael ei ddefnyddio. Gallai hyn fod yn debyg i'r hyn a gymerwyd gydag adfywiad gwasanaeth bws G1 Greenlinks. Soniodd y Cadeirydd fod y grŵp rhanbarthol wedi sefydlu gweithgor i edrych ar faterion trafndiaeth, fel y rhai yr oedd y Cynghorydd wedi eu codi. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Trafndiaeth, yn ddelfrydol, mai'r nod fyddai mwy o gydgyssylltiad rhwng gwasanaethau bysus a threnau gyda thocynnau a rennir fel rhan o fasnachfreinio a mwy o gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus ag ardaloedd gwledig a threfol.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Hooper bwysigrwydd gwasanaethau bysus ar gyfer ardaloedd trefol a gwledig y Fro, oherwydd yn y ddau achos efallai na fydd perchnogaeth car uchel na mynediad i orsafoedd trenau mewn rhai o'r ardaloedd hyn, yn ogystal â'r manteision i bobl iau, gan gynnwys cludiant ysgol. Roedd yn bwysig i'r Pwyllgor lobio'r Cyngor wrth helpu i hybu gwasanaethau o'r fath.

Croesawodd y Cynghorydd Wiliam y syniad o rannu tocynnau rhwng gwasanaethau bysus a threnau a'r rhyngweithrededd a ddaeth yn sgil hynny rhwng y gwasanaethau hyn, yn ogystal â chymhwyso'r arfer a welir mewn rhai awdurdodau lleol yng Nghymru o amserlenni bysus a threnau sy'n cyfateb i'w gilydd yn y Fro.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu at bwysigrwydd integreiddio gwasanaethau bysus a threnau, i wella seilwaith a helpu i ostwng damweiniau traffig ar y ffyrdd. Byddai'n rhoi adborth i'r Aelod Cabinet perthnasol dros drafndiaeth gyhoeddus safbwyntiau'r Pwyllgor, er mwyn ategu'r argymhellion y byddai'r Pwyllgor yn eu hanfon yn ôl i'r Cabinet.

Yr oedd wedi hyny

ARGYMHELLWYD –

(1) Cyfeirio'r sylwadau canlynol i'r Cabinet:

- Cefnogodd a chanmolodd y Pwyllgor y gwaith a wnaed gan swyddogion Cyngor Bro Morgannwg er mwyn mynd i'r afael â'r heriau parhaus o ran darparu bysiau lleol a oedd yn diwallu anghenion trigolion;
- Roedd y Pwyllgor yn pryderu am yr anallu hyd yma i sicrhau darpariaeth ddigonol i gefnogi gwasanaethau bysiau a thrafndiaeth ysgol lleol;
- Roedd y Pwyllgor hefyd yn bryderus ynghylch y trafodaethau a oedd yn digwydd ynghylch nifer y teithwyr rhwng darparwyr gwasanaethau bysiau a Llywodraeth Cymru nad oeddent yn cael eu rhannu â'r Cyngor. Gofynnodd y Pwyllgor felly i'r Cabinet ddefnyddio ei drafodaethau ar wahanol lefelau o Lywodraeth Cymru er mwyn tynnu sylw at fwy o rannu data a'r sylwadau/materion eraill a godwyd.

(2) Nodi cynnwys yr adroddiad.

(3) Bod adroddiad pellach yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2024 yn manylu ar ailgyflwyno gwasanaeth Greenlinks G1.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Er mwyn i'r Cabinet ystyried y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor, ac ystyried eu trafod â Llywodraeth Cymru, yn enwedig ynghylch rhannu gwybodaeth am niferoedd teithwyr ar wasanaethau bysiau Bro Morgannwg, o ystyried bod y Cyngor yn un o gyllidwyr sylweddol gwasanaethau bysiau. . Felly, yr oedd yn destun pryder oherwydd ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn deall a oedd gan y llwybrau dan sylw y potensial i ddod yn fasnachol hyfyw eto fel y gellir canolbwyntio ymdrechion yn y meysydd hynny, yn enwedig er mwyn hyrwyddo'r defnydd o fysiau ymhellach.

(2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Diweddarau'r Pwyllgor ar wasanaeth Greenlinks.